# Caban Y Faenol CYF

## Polisi Cyfle Cyfartal

### Nod

Mae Caban Y Faenol yn anelu at gefnogi a rhoi cyfle i bob plentyn fanteisio ar brofiadau blynyddoedd cynnar, beth bynnag eu hanghenion neu gefndir.

### Egwyddorion

- Bydd ymarferwyr Caban Y Faenol yn parchu ac yn dathlu popeth sy'n unigryw am bob plentyn a'r cyfraniad y mae pob plentyn yn ei wneud i'r lleoliad.
- Mae Caban Y Faenol yn ymrwymo i ddysgu am a deall anghenion plant o bob cefndir ethnig, gan roi ystyriaeth i'r iaith/ieithoedd a siaredir gartref, arferion cymdeithasol, diwylliannol a chrefyddol, er mwyn cefnogi hunaniaeth y plant a'u hymdeimlad o berthyn.
- Bydd y lleoliad yn cynnig darpariaeth gynhwysol sy'n canolbwyntio ar y plentyn. Bydd ymarferwyr yn dilyn dull sy'n canolbwyntio ar y plentyn, gan ddechrau gyda'r plentyn a'r hyn y gallant ei wneud, ac adeiladu ar ei gryfderau.
- Mae Caban Y Faenol yn ymrwymo i gynnig addysg gynhwysol lle mae plant ag anawsterau dysgu neu anableddau (at ddibenion Deddf Cydraddoldeb 2010) yn cael eu cefnogi i gymryd rhan lawn mewn addysg prif ffrwd.
- Bydd y lleoliad yn barod i wneud addasiadau rhesymol yn unol ag anghenion unigol, gan gynnwys amgylchedd ffisegol y lleoliad ac offer arbennig.
- Bydd Caban Y Faenol yn gweithio mewn partneriaeth â rhieni/gofalwyr, yr awdurdod lleol/cynllun cyfeirio lleol, ymarferwyr iechyd a/neu asiantaethau perthnasol eraill i sicrhau cymorth a chefnogaeth i'r plentyn a'i deulu.
- Bydd hawliau, barn, teimladau a dymuniadau'r plentyn a rhai ei rieni/gofalwyr yn ystyriaethau canolog wrth ystyried sut orau i gefnogi pob plentyn.
- Mae Caban Y Faenol yn parchu'r egwyddor o gyfrinachedd ym mhob agwedd o'i waith, gan gynnwys anghenion ychwanegol, a bydd bob amser yn cadw unrhyw gofnod neu sylwadau am blentyn unigol yn gyfrinachol ac yn cael eu storio dan glo, gan ddilyn y Polisi Cyfrinachedd a Gwarchod Data a'r Polisi E-ddiogelwch.

### Gofynion statudol

Mae'r lleoliad yn dilyn Cod Anghenion Dysgu Ychwanegol y Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018.

Yn unol â'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Gofal Plant a Reoleiddir i Blant hyd at 12 oed, bydd y lleoliad yn cynllunio ac yn darparu ar gyfer anghenion unigol pob plentyn, gan gynnwys anghenion dysgu ac anableddau.

Mae darpariaethau Deddf Cydraddoldeb 2010 yn cynnwys y ddyletswydd i wneud addasiadau rhesymol i hwyluso mynediad a chynhwysiant i bobl anabl.

Ni fyddwn yn gwahaniaethu yn erbyn plentyn na'i deulu wrth roi mynediad i neu ddarparu ein gwasanaethau, a byddwn yn barod i herio a diweddaru unrhyw gamau sy'n gwahaniaethu yn erbyn un o'r nodweddion gwarchodedig fel y'u diffinnir yn Neddf Cydraddoldeb 2010: oedran, rhyw, ailbennu rhywedd, statws priodasol, beichiogrwydd a mamolaeth, hil, anabledd, cyfeiriadedd rhywiol, crefydd neu gred.

**Hawliau plant**

Mae sicrhau bod pob plentyn yn cael y cyfle i fanteisio ar brofiadau blynyddoedd cynnar yn parchu hawliau'r plentyn a amlinellir gan Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn, yn benodol:

**Erthygl 2**: Mae'r Confensiwn yn berthnasol i bawb, beth bynnag fo'u hil, crefydd, galluoedd, beth bynnag y maent yn ei feddwl neu'n ei ddweud a pha fath bynnag o deulu y maent yn dod ohono.

**Erthygl 3**: Dylai pob sefydliad sy'n ymwneud â phlant weithio tuag at yr hyn sydd orau i bob plentyn.

**Erthygl 8**: Dylai llywodraethau barchu hawl plant i enw, cenedligrwydd a chysylltiadau teuluol.

**Erthygl 12**: Mae gan blant yr hawl i ddweud beth maen nhw'n feddwl ddylai ddigwydd, pan fo oedolion yn gwneud penderfyniadau sy'n effeithio arnyn nhw, ac i'w barn gael ei hystyried.

**Erthygl 14**: Mae gan blant yr hawl i feddwl a chredu'r hyn a fynnant ac i arfer eu crefydd, cyn belled nad ydynt yn atal pobl eraill rhag mwynhau eu hawliau.

**Erthygl 23**: Dylai plant sydd ag unrhyw fath o anabledd gael gofal a chymorth arbennig fel y gallant fyw bywydau llawn ac annibynnol.

**Erthygl 30**: Mae gan blant yr hawl i ddysgu a defnyddio iaith ac arferion eu teuluoedd, p'un a yw'r rhain yn cael eu rhannu gan fwyafrif pobl y wlad ai peidio.

**Erthygl 31**: Mae gan bob plentyn yr hawl i ymlacio a chwarae, ac i ymuno mewn ystod eang o weithgareddau.

**Y Gymraeg ac Anghenion Dysgu Ychwanegol [noder: mae'r adran isod yn rhan o Bolisi Iaith Gymraeg y lleoliad (diweddarwyd Ionawr 2022)]**

Mae Caban Y Faenol yn siarad Cymraeg, a bydd yn gweithio gydag asiantaethau a gweithwyr proffesiynol eraill sy'n cefnogi'r plentyn i sicrhau bod cymorth priodol yn cael ei ddarparu trwy gyfrwng y Gymraeg.

Fodd bynnag, rydym yn cydnabod bod achosion lle mae gan blentyn anghenion ychwanegol, ac efallai y bydd angen darparu cymorth ychwanegol, priodol i'r plentyn yn iaith ei gartref. Ystyrir pob achos o'r fath yn unigol, gan ystyried a chyfeirio at y canllawiau ar gyfer gweithredu Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) ar bob achlysur.

Os bydd achos yn codi, bydd Caban Y Faenol yn trafod gyda'r rhieni / gofalwyr / gwarcheidwaid, y gweithwyr proffesiynol perthnasol, a'r Cydlynydd Cefnogi Cylchoedd lleol i gytuno ar y ffordd orau o ddarparu'r gefnogaeth / ymyrraeth angenrheidiol i'r plentyn. Sylwer nad yw'n bosibl cynnal unrhyw weithgaredd / ymyriad nad yw'n Gymraeg pan fyddai'n rhan o weithgaredd arferol y Cylch Meithrin nac yn ymwneud â phlant eraill sy'n mynychu'r Cylch, gan y bydd hyn yn effeithio ar hawl y plant eraill i dderbyn addysg a gofal cyfrwng Cymraeg yn y lleoliad.

Bydd Caban Y Faenol a Mudiad Meithrin yn parhau i weithredu ac eirioli i sicrhau bod cefnogaeth briodol a phriodol ar gyfer Anghenion Dysgu Ychwanegol ar gael trwy gyfrwng y Gymraeg i bob plentyn yng Nghymru.

**Anabledd**

Mae adran chwech o Ddeddf Cydraddoldeb 2010 yn nodi eich bod yn anabl os:

- os oes gennych nam corfforol neu feddyliol
- os yw'r nam hwnnw'n cael effaith sylweddol a hirdymor ar eich gallu i gyflawni gweithgareddau arferol o ddydd i ddydd.

**Anghenion Dysgu Ychwanegol:**

Mae gan berson angen dysgu ychwanegol os oes ganddo anhawster dysgu neu anabledd sy'n galw am ddarpariaeth ddysgu ychwanegol. Os bydd plentyn yn y blynyddoedd cynnar yn dangos arwyddion o anhawster dysgu, dylid ystyried ymyrraeth gynnar os yw'n debygol y bydd yr anhawster dysgu yn dwysáu neu y bydd y plentyn yn datblygu anabledd (diffiniad Deddf Cydraddoldeb 2010) erbyn ei fod yn bum mlwydd oed.

**Darpariaeth Dysgu Ychwanegol**

Ar gyfer plentyn tair blwydd oed neu hŷn, mae darpariaeth ddysgu ychwanegol yn golygu darparu addysg neu hyfforddiant sy'n ychwanegol, neu'n wahanol i'r hyn a ddarperir yn gyffredinol i eraill yn yr un ystod oedran.

Fodd bynnag, yn achos plant dan dair oed, mae darpariaeth dysgu ychwanegol yn golygu darpariaeth addysgol o unrhyw fath. I'r rhai sy'n 3 oed a throsodd, mae darpariaeth dysgu ychwanegol yn golygu'r un peth ag y mae ar gyfer plant o oedran ysgol gorfodol a phobl ifanc.

**Cynllun Datblygu Unigol**

Os oes gan blentyn anghenion dysgu ychwanegol neu anabledd sydd angen darpariaeth ddysgu ychwanegol, bydd Cynllun Datblygu Unigol yn cael ei baratoi ar gyfer y plentyn hwnnw. Mae'r Cynllun Datblygu Unigol (CDU) yn cynnwys manylion y ddarpariaeth ddysgu ychwanegol sydd ei hangen ar y plentyn, ar ôl derbyn cyngor gan arbenigwyr iechyd, gwasanaethau cymdeithasol a/neu wasanaethau eraill. Disgwylir i bawb gydweithio i sicrhau'r Cynllun Datblygu Unigol gorau i'r plentyn.

**Cod Ymarfer**

Bydd Caban y Faenol yn gweithredu yn unol â Chod Ymarfer Anghenion Dysgu Ychwanegol presennol Cymru sy'n seiliedig ar Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018.

Mae'r lleoliad yn ymwybodol o'i ddyletswyddau cyfreithiol o dan y ddeddf uchod, gan gynnwys y ddyletswydd i hysbysu'r awdurdod lleol y gall fod gan blentyn ADY.

Byddwn yn gweithio i gyflwyno lefel uchel o Ddarpariaeth Gyffredinol sy'n cwrdd ag anghenion pob plentyn.

Lle bo'n briodol, bydd ymarferwyr y lleoliad yn gwneud addasiadau rhesymol (Deddf Cydraddoldeb 2010, Safonau Gofynnol AGC) i'r trefniadau/adnoddau/ amgylcheddau/ rhyngweithio arferol ag oedolion, er mwyn cynnig darpariaeth gyffredinol wedi'i thargedu a fydd yn cefnogi datblygiad pob plentyn.

Mae ymarferwyr Caban Y Faenol yn deall bod ymyrraeth gynnar yn helpu i atal anghenion ychwanegol rhag datblygu neu waethygu erbyn i'r plentyn gyrraedd pum mlwydd oed ac mewn addysg llawn amser.

**Cyfeirio**

Os yw ymarferydd yn pryderu nad yw plentyn yn gwneud digon o gynnydd ac yn amau bod gan blentyn anghenion dysgu ychwanegol, dylid cyfeirio'r plentyn at yr awdurdod lleol. Dylid hefyd ystyried pryderon rhieni/gofalwyr. (Edrychwch ar y Cynllun LIMP:

Atodiad 72c- Cofnod Anghenion Ychwanegol a Chynllun Cynnydd y polisi hwn i gofnodi cynnydd plentyn a nodi eu hymatebion i unrhyw strategaethau neu ymyriadau a ddefnyddiwyd yn y lleoliadau cyn cyfeirio).

Dylid cyfeirio'r plentyn at yr awdurdod lleol drwy'r broses fel y'i hysbysir gan Swyddog Arweiniol Anghenion Dysgu Ychwanegol y Blynyddoedd Cynnar (Swyddog Arweiniol ADY y Blynyddoedd Cynnar).

Bydd yr Arweinydd yn trafod yn gyfrinachol gyda rhieni/gofalwyr os oes pryder y gallai fod gan eu plentyn anghenion dysgu ychwanegol, anabledd neu anghenion anhysbys eraill. Gyda chaniatâd y rhieni/gofalwyr bydd Caban Y Faenol yn cysylltu â'r awdurdod lleol/cynllun cyfeirio lleol.

Gellir cysylltu â'r Athro Ymgynghorol / Swyddog Gofal Plant / Therapydd Iaith a Lleferydd am gyngor a chefnogaeth.

**Penderfyniad yr awdurdod lleol:**

Mae gan yr awdurdod lleol ddyletswydd i ymateb i unrhyw bryderon a godir am Anghenion Dysgu Ychwanegol posibl plentyn.
Os bydd yr Awdurdod Lleol yn penderfynu bod gan blentyn anghenion dysgu ychwanegol, bydd yr awdurdod lleol yn creu Cynllun Datblygu Unigol ar gyfer y plentyn. Mae hon yn ddogfen statudol sy'n amlinellu'r ddarpariaeth neu'r dulliau a ddefnyddir i helpu'r plentyn i gyflawni ei lawn botensial ac i atal unrhyw anghenion rhag gwaethygu. Os penderfynir nad oes gan blentyn anghenion dysgu ychwanegol bydd Caban Y Faenol yn ceisio cyngor gan Swyddog Arweiniol Anghenion Dysgu Ychwanegol y Blynyddoedd Cynnar ac asiantaethau eraill ynglŷn â'r ffordd orau o gefnogi'r plentyn a'i deulu.
Bydd Caban Y Faenol yn cynnig darpariaeth ddysgu ychwanegol cyn belled ag y gallant, yn unol â Chynllun Datblygu Unigol y plentyn.
Bydd y CDU yn cynnwys manylion am y ddarpariaeth ddysgu unigol sydd ei hangen ar y plentyn ar ôl derbyn cyngor arbenigol. Gall hyn gynnwys strategaethau i helpu'r plentyn, gan gynnwys targedau tymor byr, yr adnoddau sydd eu hangen, strategaethau dysgu gwahaniaethol, y drefn ar gyfer adolygu'r cynllun a chanlyniadau'r camau a gymerwyd.
Bydd ymarferwyr Caban Y Faenol yn barod i fynychu cyfarfodydd a rhoi mewnbwn, ar wahoddiad yr awdurdod lleol, i drafod y plentyn a'i Gynllun Datblygu Unigol.

Bydd ymarferwyr Caban Y Faenol yn cymryd rhan mewn cyfarfodydd adolygu, ac yn monitro targedau CDU y plentyn, gan rannu'r wybodaeth hon gyda'r awdurdod lleol. Cyfrifoldeb yr awdurdod lleol yw adolygu'r CDU, rhannu gwybodaeth gyda'r plentyn a'r teulu a cheisio eu barn wrth adolygu'r CDU.

# Caban Y Faenol CYF

Caban Y Faenol yn cydweithio i sicrhau trosglwyddiad llwyddiannus i'r plentyn (naill ai o'r cartref i'r cylch neu o'r cylch i'r ysgol/lleoliad arall).
Bydd y lleoliad yn trosglwyddo'r holl wybodaeth berthnasol yn ystod adolygiadau pontio ac yn addasu'r broses bontio fel ei bod yn diwallu anghenion y plentyn dan sylw.

### Hyrwyddo Cyfle Cyfartal

Mae'n arfer da dynodi un person i fod yn Gydlynydd Anghenion Ychwanegol yn y lleoliad. Fodd bynnag, mae gan bob aelod o staff gyfrifoldeb i ddiwallu anghenion pob plentyn sy'n mynychu Caban y Faenol. Mae disgrifiad o rôl y Cydlynydd Anghenion Ychwanegol ar gael yn LIMP :Atodiad 72a- Rôl Cydlynydd Anghenion Ychwanegol y polisi hwn.
Mae Caban Y Faenol yn nodi ar ei ddeunyddiau cyhoeddusrwydd bod croeso i bob plentyn gymryd rhan yn yr holl weithgareddau.
Cyfrifoldeb y Rheolwr/Arweinydd, mewn partneriaeth â Swyddog Arweiniol Anghenion Ychwanegol y Blynyddoedd Cynnar lleol / y Cynllun Cyfeirio lleol a/neu asiantaethau perthnasol eraill yw hwyluso mynediad i'r lleoliad i bob plentyn, beth bynnag fo'i anghenion.
Bydd Caban Y Faenol yn gweithredu ar y cyngor, yr arweiniad a'r hyfforddiant a ddarperir gan asiantaethau allanol, gan weithio ar y cyd i alluogi plant unigol i gyflawni eu potensial.
Cyfrifoldeb y Rheolwr/Arweinydd yw sicrhau bod yr holl wybodaeth a gedwir gan yr awdurdod lleol/cynllun cyfeirio a/neu asiantaethau allanol ynghylch y lleoliad, yn gyfredol ac yn gywir.
Bydd y Rheolwr/Arweinydd yn sicrhau bod staff yn derbyn yr hyfforddiant, y gefnogaeth a'r adnoddau angenrheidiol i gyflwyno darpariaeth ar gyfer y plant sy'n mynychu'r lleoliad. Bydd y Rheolwr/Arweinydd yn sicrhau bod trefniadau staffio yn diwallu anghenion y plant ag anghenion ychwanegol sy'n mynychu'r lleoliad.
Er mwyn sicrhau'r cyfleoedd gorau i bob plentyn, mae'r lleoliad yn anelu at ystyried materion yn ymwneud â chynhwysiad wrth gynllunio gweithgaredd neu gyflwyno; er enghraifft wrth wneud penderfyniadau strategol, neu wrth brynu offer ac adnoddau, neu gynllunio cyfleusterau.
Mae defnyddio arferion sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn ym mhob agwedd ar fywyd y lleoliad yn helpu plant i ddysgu'n fwy effeithiol. Mae defnyddio Proffil Un Tudalen yn ffordd effeithiol o gasglu gwybodaeth am yr hyn yr ydym yn ei hoffi ac yn ei edmygu am y plentyn, yr hyn sy'n bwysig iddo a'r hyn sy'n bwysig wrth ei gefnogi. Mae templed Proffil Un Tudalen ar gael yn LIMP :Atodiad 72b - Proffil Un Tudalen .
Mae mwy o wybodaeth am ymarfer person-ganolog ar gael yma: ymarfer-sy-n-canolbwyntio-ar-unigolion-mewn-addysg-canllaw-ar-gyfer-blynyddoedd-cynnar-ysgolion-a-cholegau-yng-nghymru.pdf (llyw.cymru)

**Diogelwch a lles**

Mae'r lleoliad yn cymryd diogelwch a lles pawb sy'n ymwneud â'r lleoliad o ddifrif ac yn gweithio i atal unrhyw ymddygiad anoddefgar. Byddwn yn disgwyl i bob ymarferwr drin unrhyw ymddygiad gwahaniaethol neu fwlio o ddifrif a'i ddwyn i sylw'r Arweinydd. Bydd yr Arweinydd yn hysbysu'r Person Cofrestredig / Unigolyn Cyfrifol ac yn cofnodi'r digwyddiad yn y Llyfr Digwyddiadau. Os derbynnir cwyn gan riant/gofalwr dylid dilyn y Polisi Canmoliaeth a Chwynion.
Bydd y lleoliad yn rhoi gwybod i'r heddlu am unrhyw ddigwyddiad y mae'n credu ei fod yn drosedd casineb. Mae Trosedd Casineb yn drosedd sydd, yn ôl y dioddefwr (neu unrhyw unigolyn arall), yn cael ei hysgogi gan ragfarn neu gasineb. Enghreifftiau o hyn yw: difrod troseddol, ymosodiad, cam-drin geiriol, ac ati.

**Polisïau Cysylltiedig**

Polisi Canmoliaeth a Chwynion
Polisi Cyfrinachedd a Diogelu Data
Polisi Cydraddoldeb ac Amrywiaeth
Polisi Chwythu'r Chwiban
Polisi Derbyn
Polisi e-ddiogelwch
Polisi Iaith Gymraeg